

# **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

## **Atodiadau i Bolisi Dyrannu Cyffredin Bwrdeistref Sirol Caerffili**

**Tachwedd 2015**

**Dogfen Fersiwn 1.2**

## Rheoli Fersiwn Dogfen

<b>Gwybodaeth Rheoli Dogfen</b>			
<b>Awdur:</b>	M Jennings	<b>Statws:</b>	Cymeradwywyd
<b>Fersiwn:</b>	1.2	<b>Dyddiad:</b>	06/12/2017
<b>Cymeradwyd gan:</b>	S Couzens	<b>Dyddiad y cymeradwywyd:</b>	31/03/2017

<b>Adolygiad Dogfen</b>			
<b>Fersiwn</b>	<b>Newid</b>	<b>Gan</b>	<b>Dyddiad</b>
1.2	<ul style="list-style-type: none"><li>• Newid i wall bach argraffyddol yn Atodiad 7; a</li><li>• Newid bach i baragraff 2.5.</li></ul>	M Jennings	31/03/2017

## Tabl Cynnwys

Atodiad 1: .....	1
Atodiad 2: Crynodeb o'r Cynllun Bandio .....	2
Atodiad 3: Meini Prawf Diystyru .....	12
Atodiad 4: Meini Prawf Maint Cymdeithas - Nifer yr Ystafelloedd Gwely 15	
Atodiad 5: Meini Prawf Maint yr Aelwyd .....	17
Atodiad 6: Meini Prawf Cysylltiedig ag Isafswm Oedran ar gyfer Tai Ymdeol.....	21
Atodiad 7: Categorïau o Anabledd .....	22
Atodiad 8: Dosbarthiadau Tai Hygyrch.....	23
Atodiad 9: Meini Prawf ar gyfer Rhoi'r Ymgeiswyr Mwyaf Addas ar y Rhestr Fer .....	24
Atodiad 10: Manylion Cyswllt .....	26

## **Atodiad 1:**

## Atodiad 2: Crynodeb o'r Cynllun Bandio

Band 1: Angen symud ar frys oherwydd ffafriaeth resymol A ffafriaeth ychwanegol	Enghreiffiau o Amgylchiadau Cymwys / Crynodeb o'r Meini Prawf
<p>Seiliau Meddygol a Lles: rhyddhau cleifion o'r ysbyty.</p> <p>Ffafriaeth Resymol categori a167(2)(iv)</p>	<p>Gellir rhoi ffafriaeth ychwanegol i'r bobl hynny sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) mae ganddynt rywle i fyw ar ôl gadael yr ysbyty ond mae'n anaddas i ddiwallu eu hanghenion ac ni ellir ei wneud yn addas drwy gyflawni addasiadau oherwydd y gost neu anawsterau strwythurol neu am na ellir ei addasu o fewn cyfnod rhesymol o amser.</li> <li>(ii) nid oes ganddynt unrhyw le i fyw pan fyddant yn gadael yr ysbyty. Efallai y byddant yn gymwys i gael eu rhoi ym Mand 1 os oes angen iddynt symud ar frys, fel y'i hasesir gan y Cyngor, a bod pob opsiwn tai rhesymol arall wedi'i ystyried.</li> </ul> <p>Ar gyfer pwyntiau (i) a (ii) uchod, bydd y therapydd galwedigaethol (Tai) a/neu Gofal yn asesu'r angen i symud a, lle y bo'n gymwys, yn gwneud argymhelliad ynghylch y math o lety sydd ei angen a'i faint.</p>
<p>Seiliau Meddygol a Lles: meddygol brys neu anabledd.</p> <p>Ffafriaeth Resymol categori a167(2)(iv)</p>	<p>Rhoddir ffafriaeth ychwanegol os bydd y Cyngor yn fodlon, ar ôl gwneud asesiad, fod yr ymgeisydd neu'r aelod o'i ddarpar aelwyd yn bodloni'r meini prawf canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) mae'n cael gofal lliniarol ac mae angen ei ailgartrefu ar frys fel y gellir parhau i ddarparu'r gofal hwn;</li> <li>(ii) mae ganddo gyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd ac mae ei lety presennol yn effeithio ar ei allu i barhau i fyw'n annibynnol neu ar y gallu i ddarparu gofal digonol;</li> <li>(iii) mae'r llety yn cael effaith mor andwyol ar ei iechyd fel ei fod yn debygol o beryglu ei fywyd, e.e. mae gan yr ymgeisydd broblemau iechyd meddwl difrifol sydd gryn dipyn yn waeth oherwydd ei lety;</li> <li>(iv) mae'n anabl ac, o ganlyniad uniongyrchol i'r cyfyngiadau a osodir arno gan yr eiddo presennol, ni all gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd</li> </ul>

	<p>neu mae'n ei chael hi'n anodd defnyddio cyfleusterau y tu mewn i'w dŷ neu'r tu allan iddo. Ni roddir ffafriaeth ychwanegol os bydd y Cyngor wedi asesu na fyddai ailgartrefu'r unigolyn yn helpu i leihau'r cyfyngiadau a nodwyd; neu</p> <p>(v) mae'r ffaith bod ei eiddo presennol yn orlawn yn golygu ei fod yn wynebu risg o gael haint, e.e. mae'n dioddef o haint HIV datblygedig.</p> <p>Ar gyfer pwyntiau (i)-(v) uchod, bydd y Cyngor yn asesu'r angen i'r ymgeisydd neu aelod o'i ddarpar aelwyd symud a'r math o lety sydd ei angen. Bydd asesiadau o'r fath yn ystyried yr holl wybodaeth ategol a chânt eu cynnal yn unol â pharagraffau 7.6-7.13.</p>
<p>Seiliau Meddygol a Lles: rhyddhau eiddo a addaswyd.</p> <p>Ffafriaeth Resymol categori a167(2)(iv)</p>	<p>Gellir rhoi ffafriaeth ychwanegol o dan yr amgylchiadau canlynol:</p> <p>(i) nid oes angen yr addasiadau sydd yn ei gartref presennol ar denant tŷ cymdeithasol sy'n byw yn y fwrdeistref sirol mwyach a thrwy symud bydd yn rhyddhau eiddo a addaswyd a all ddiwallu anghenion pobl anabl sy'n aros am lety neu y gellid ei addasu, heb fynd i gostau mawr, er mwyn diwallu anghenion person anabl.</p> <p>Gall fod yn briodol rhoi ffafriaeth ychwanegol o hyd os oes angen addasiadau ar yr ymgeisydd, ar yr amod bod yr addasiadau sydd eu hangen yn wahanol iawn i'r rhai yn ei gartref preswyl, fel yr asesir gan y Cyngor.</p>
<p>Seiliau Meddygol a Lles: cam-drin domestig, trais neu aflonyddwch.</p> <p>Ffafriaeth Resymol categori a167(2)(iv)</p>	<p>Bydd y Cyngor yn rhoi ffafriaeth ychwanegol os bydd yn fodlon, ar ôl ymgynghori â'r asiantaethau perthnasol, fod yr ymgeisydd neu'r aelod o'i ddarpar aelwyd yn bodloni'r meini prawf canlynol:</p> <p>(i) mae'n ddioddefwr cam-drin domestig sy'n wynebu risg uchel, ac sy'n destun MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth), fel rhan o gynllun diogelwch y cytunwyd arno ar gyfer dioddefwyr sy'n wynebu risg uchel; neu</p> <p>(ii) mae'n dioddef trais, aflonyddwch neu wahaniaethu eithafol, pa un a yw'n drosedd casineb neu fel arall, ac nid yw'n ddiogel iddo aros yn ei gartref presennol/ardal bresennol.</p> <p>Cyn i ffafriaeth ychwanegol gael ei rhoi, bydd y</p>

	<p>Cyngor yn cydgysylltu â'r asiantaethau perthnasol er mwyn sicrhau y câi'r risg o gam-drin domestig, trais neu aflonyddwch ei lleihau'n sylweddol drwy ailgartrefu'r unigolyn.</p>
<p>Y Lluoedd Arfog: cyn-aelodau, anaf difrifol neu gollu llety milwrol</p>	<p>Rhoddir ffafriaeth ychwanegol i'r categorïau canlynol o bobl:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) unigolion a adawodd Lluoedd Arfog Prydain neu Lluoedd Wrth Gefn Prydain o fewn y pum mlynedd diwethaf. O dan amgylchiadau esgusodol gall y Cyngor ystyried ymestyn y cyfnod o bum mlynedd. Mewn achosion o'r fath câi adroddiad ei gyflwyno i'r Panel Asesu Tai ei ystyried;</li> <li>(ii) unigolion sy'n aelodau ar wasanaeth o Lluoedd Arfog Prydain neu Lluoedd Wrth Gefn Prydain y mae angen iddynt symud oherwydd anaf difrifol, cyflwr meddygol neu anabledd a gafwyd o ganlyniad i'w gwasanaeth; neu</li> <li>(iii) unigolion sy'n briod neu'n bartner sifil mewn profedigaeth i aelodau o Lluoedd Arfog Prydain sy'n gadael llety i deuluoedd milwyr yn dilyn marwolaeth eu priod neu eu partner.</li> </ul>
<p>Amodau Tai Afiach: amodau tai anfoddfaol yn y sector preifat</p> <p>Ffafriaeth Resymol categori a167(2)(iii)</p>	<p>Rhoddir ffafriaeth ychwanegol i ymgeiswyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) sy'n meddiannu eiddo lle mae gofyniad statudol i adael yr eiddo hwnnw oherwydd Gorchymyn Dymchwel, Gorchymyn Gwahardd neu ardal glirio (naill ai drwy gytundeb neu drwy brynu gorfodol).</li> <li>(ii) y mae eu hamodau byw yn fygythiad uniongyrchol i fywyd neu'n peri risg o anaf difrifol, fel y penderfynir gan un o swyddogion iechyd yr amgylchedd y Cyngor a lle nad oes unrhyw bosibilrwydd y caiff y problemau hyn eu datrys o fewn cyfnod o amser y mae'r Cyngor yn ystyried ei fod yn rhesymol. Fodd bynnag, os caiff y problemau eu datrys cyn i'r ymgeisydd gael ei ailgartrefu, a bod swyddog iechyd yr amgylchedd yn penderfynu nad oes unrhyw fygythiadau i'w cael mwyach, caiff y ffafriaeth ychwanegol a roddwyd ei dirymu.</li> </ul>
<p>Seiliau Meddygol a Lles: bygythiad difrifol i blentyn.</p> <p>Ffafriaeth Resymol categori</p>	<p>Rhoddir ffafriaeth ychwanegol i ymgeisydd lle:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) mae'r Cyngor wedi cadarnhau bod bygythiad difrifol i les plentyn a bod ei lety yn cyfrannu at y</li> </ul>

<p>a167(2)(iv)</p>	<p>risg. Mae'r rhain yn achosion lle y gall y Cyngor gadarnhau bod angen symud y plentyn ar frys er mwyn lleihau'r risg iddo.</p> <p>Ni roddir ffafriaeth ychwanegol nes y bydd adroddiad boddhaol gan weithiwr cymdeithasol y plentyn sy'n ategu'r gofyniad i symud wedi'i gyflwyno. Bydd angen i'r adroddiad gael ei gydlofnodi gan reolwr gwasanaeth perthnasol yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol.</p>
<p>Ar y sail bod Ymgeisydd yn Statudol Ddigartref: Pobl ddigartref â dyletswydd i sicrhau llety neu y mae dyletswydd yn ddyledus iddynt o ganlyniad i drais.</p>	<p>Rhoddir ffafriaeth ychwanegol i ymgeisydd y mae'r Cyngor yn ystyried:</p> <p>(i) bod ganddo angen blaenoriaethol ac mae dyletswydd o dan a.75 yn ddyledus iddo o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.</p> <p>(ii) y mae dyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddo o ganlyniad i drais neu fygythiadau o drais sy'n debygol o gael eu cyflawni ac y mae angen ei ailgartrefu ar frys o ganlyniad i hynny, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• dioddefwyr cam-drin domestig a mathau eraill o gamdriniaeth;</li> <li>• dioddefwyr digwyddiadau casineb; a</li> <li>• tystion i droseddau, neu ddioddefwyr troseddau, a fyddai'n wynebu risg o gael eu bygwth a fyddai'n gyfystyr â thrais neu fygythiadau o drais pe baent yn aros yn eu cartrefi presennol.</li> </ul> <p>Caiff ymgeiswyr y rhoddir ffafriaeth ychwanegol iddynt o dan y meini prawf a nodir ym mharagraff 3.13, un cynnig addas o lety, fel y'i diffinnir gan a.59 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Os gwrthodir y cynnig caiff y ddyletswydd digartrefedd ei therfynu a dilëir y ffafriaeth resymol a roddwyd (a.84 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014).</p>
<p>Seiliau Meddygol neu Les: symud ymlaen o lety â chymorth.</p> <p>Ffafriaeth Resymol categori a167(2)(iv)</p>	<p>Rhoddir ffafriaeth ychwanegol i ymgeisydd y mae'r Cyngor yn penderfynu ei fod yn barod i fyw'n annibynnol:</p> <p>(i) ar sail argymhelliad gweithiwr cymorth, sy'n barod i symud ymlaen o lety â chymorth yn y fwrdeistref sirol i dŷ annibynnol ac, oherwydd natur a graddau ei fregusrwydd, byddai llety yn y sector rhentu preifat, oherwydd ei natur fyrdymor, yn cael effaith</p>



	<p>andwyol ar ei les. Cyn i ffafriaeth ychwanegol gael ei rhoi, bydd angen asesu anghenion cymorth parhaus a, lle y bo'n briodol, roi cynllun cymorth ar waith fel bod y denantiaeth yn fwy tebygol o lwyddo.</p> <p>Os gwneir cais am dŷ cyn i'r Cyngor benderfynu bod yr unigolyn yn barod i fyw'n annibynnol, gan ystyried gwybodaeth gan weithiwr cymorth yr ymgeisydd ac asiantaethau eraill, rhoddir y cais ym Mand 1 a chaiff ei atal ar unwaith. Bydd yr ymgeisydd yn gallu gofyn am adolygiad o'r penderfyniad i atal y cais drwy fodloni'r meini prawf a nodir ym mharagraffau 7.41-7.44.</p>
<p>Amgylchiadau Eithriadol – Disgresiwn y Rheolwyr</p>	<p>Rhoddir ffafriaeth ychwanegol o dan yr amgylchiadau canlynol:</p> <p>(i) os oes angen i ymgeisydd symud ar frys, oherwydd amgylchiadau eithriadol a difrifol iawn, ac mai'r unig ffordd i gyflymu'r broses o symud yw drwy ddefnyddio disgresiwn y rheolwyr (paragraffau 4.7-4.11).</p> <p>O dan amgylchiadau o'r fath, bydd y Cyngor yn llunio adroddiad i'w ystyried gan y Panel Asesu Tai. Os bydd y Panel yn fodlon bod amgylchiadau eithriadol a difrifol iawn a bod angen symud ar frys ac na ellid hwyluso'r broses o symud gan ddefnyddio dulliau arferol, rhoddir ffafriaeth resymol i'r ymgeisydd ynghyd â ffafriaeth ychwanegol ac fe'i rhoddir ar frig Band 1, waeth beth fo'r amser aros.</p>
<p>Caledi Ariannol Eithafol – Diwygio Lles</p>	<p>Rhoddir ffafriaeth ychwanegol o dan yr amgylchiadau canlynol:</p> <p>(i) os yw'r ymgeisydd yn tanfeddiannu eiddo cymdeithasol ar rent a'i fod yn dioddef caledi ariannol eithafol, o ganlyniad i'r diwygiadau lles, a'i fod yn barod i symud i eiddo llai o faint, mwy addas sydd â llai o ystafelloedd gwely.</p> <p>Y landlord perthnasol sy'n gyfrifol am gynnal asesiad ariannol a bydd yn cydgysylltu'n uniongyrchol â'r Cyngor. Cyfrifoldeb y Cyngor yn unig yw penderfynu a ddylid rhoi ffafriaeth ychwanegol ai peidio ac ystyrir pob achos yn unigol. Dim ond os yw'r ymgeisydd yn barod i symud i eiddo mwy addas â llai o ystafelloedd gwely, gan gyfrannu at leihau'r caledi ariannol, y rhoddir ffafriaeth ychwanegol iddo.</p>

Band 2: Angen Symud – Ffafiaeth Resymol	Engbreiffiau o Amgylchiadau Cymwys / Crynodeb o'r Meini Prawf
<p>Digartref neu dan Fygythiad o Ddigartrefedd</p>	<p>Rhoddir ffafiaeth resymol i ymgeisydd y mae'r Cyngor yn ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) ei fod yn ddigartref o fewn ystyr Rhan 7 o Ddeddf Tai 1996 neu Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014;</li> <li>(ii) bod dyletswydd yn ddyledus iddo gan awdurdod lleol o dan adrannau 66 a 73 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 neu</li> <li>(iii) fod dyletswydd yn ddyledus iddo gan awdurdod lleol o dan adran 190(2), 193(2) neu 195(2) o Ran VII o Ddeddf Tai 1996 neu sy'n meddiannu llety a ddiogelir gan unrhyw awdurdod lleol o dan adran 192(3).</li> </ul> <p>Caiff ymgeiswyr y rhoddir ffafiaeth resymol iddynt o dan y meini prawf a nodir ym mharagraff 3.23 un cynnig addas o lety, fel y'i diffinnir gan a.59 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Os gwrthodir y cynnig caiff y ddyletswydd digartrefedd ei therfynu a dilëir y ffafiaeth resymol a roddwyd (a.84 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014).</p>
<p>Amodau Tai Afiach: amodau tai anfodhaol yn y sector preifat lle y ceir un neu ragor o beryglon Categori 1 (heb gynnwys bod yn orlawn).</p> <p>Ffafiaeth Resymol categori a167(2)(iii)</p>	<p>Rhoddir ffafiaeth resymol i ymgeisydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) pan fydd swyddog iechyd yr amgylchedd o'r Cyngor wedi penderfynu bod eiddo yn y sector preifat (sy'n eiddo i'r meddiannydd neu'n cael ei feddiannu gan denant) yn cynnwys un neu ragor o beryglon difrifol a nodir yng Nghategori 1, fel y'u diffinnir gan y <a href="#">System Graddio Iechyd a Diogelwch Tai</a>. Rhoddir ffafiaeth resymol mewn perthynas â risg sylweddol i iechyd a lles y meddiannydd/meddianwyr, a phan nad oes unrhyw bosibilrwydd y caiff y problemau eu datrys mewn cyfnod o amser y mae'r Cyngor yn ystyried ei fod yn rhesymol ar gyfer y sefyllfa honno; neu</li> <li>(ii) sy'n byw mewn Tŷ Amlfeddiannaeth, lle mae Gorchymyn Gwahardd Ataliedig yn weithredol am nad oes digon o gyfleusterau ac amwynderau ar gyfer nifer y meddianwyr.</li> </ul> <p>O ran pwyntiau (i)-(ii) uchod, os bydd y Cyngor yn</p>

	<p>fodlon ar ôl hynny fod yr holl beryglon difrifol a nodir yng Nghategori 1 wedi'u datrys caiff y ffafriaeth resymol a roddwyd ei dileu.</p>
<p>Seiliau Tanfeddiannaeth: tanfeddiannu eiddo cymdeithasol ar rent</p> <p>Ffafriaeth Resymol categori a167(2)(iii)</p>	<p>Rhoddir ffafriaeth resymol i ymgeisydd:</p> <p>(i) os yw'n tanfeddiannu eiddo cymdeithasol ar rent yn y fwrdeistref sirol, a'i fod yn dioddef caledi ariannol, o ganlyniad uniongyrchol i'r diwygiadau lles, a'i fod yn barod i symud i eiddo llai o faint, mwy addas sydd â llai o ystafelloedd gwely.</p> <p>Mewn achosion o galedi ariannol eithafol, yn dilyn asesiad, gellir rhoi ffafriaeth ychwanegol i ymgeisydd (Band 1). Y landlord perthnasol sy'n gyfrifol am gynnal asesiad ariannol a bydd yn cydgysylltu'n uniongyrchol â'r Cyngor. Cyfrifoldeb y Cyngor yn unig yw penderfynu a ddylid rhoi ffafriaeth ychwanegol ai peidio ac ystyrir pob achos yn unigol.</p> <p>(ii) y mae'r Cyngor yn ystyried ei fod yn berson hŷn sy'n byw mewn eiddo cymdeithasol ar rent yn y fwrdeistref sirol ac sydd am symud o lety teulu sydd â dwy, tair, pedair neu bum gwely i dŷ ymddeol llai o faint, pan fo angen a nodwyd am y llety y bydd yn ei adael.</p> <p>Ystyr person hŷn yw 60 oed a throsodd ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sy'n gofyn am lety gyda Cartrefi Caerffili neu gymdeithas dai Wales and West yn unig, a 55 oed a throsodd ar gyfer yr unigolion hynny sy'n gofyn am lety gyda'r landlordiaid eraill, oni chymhwysir yr oddefeb oedran (gweler paragraffau 5.25-5.27). Bydd angen i ymgeiswyr sy'n gofyn am gael eu hailgartrefu gyda'r ddau fath o landlord fodloni'r meini prawf oedran penodol gyda'r landlord perthnasol er mwyn bod yn gymwys i gael ffafriaeth ychwanegol.</p>
<p>Gorlawn lawn: fel y'i diffinnir gan y safon ystafelloedd gwely</p> <p>Ffafriaeth Resymol categori a167(2)(iii)</p>	<p>Rhoddir ffafriaeth resymol i ymgeisydd:</p> <p>(i) y mae'r Cyngor yn fodlon bod dwy neu ragor o ystafelloedd gwely yn ormod yn ei lety presennol. At ddibenion y polisi hwn, diffinnir gorlawn gan 'safon ystafelloedd gwely' yr Adran Gwaith a Phensiynau (gweler Atodiad 3). Caiff yr asesiad i nodi a yw eiddo yn orlawn ei gynnal gan y Cyngor.</p> <p>Ni roddir ffafriaeth resymol i hwyluso symud rhwng eiddo tebyg.</p>

	<p>Ni roddir ffafriaeth resymol i ymgeiswyr y mae'r Cyngor wedi penderfynu eu bod wedi achosi i'w heiddo fynd yn orlawn neu hyd yn oed yn fwy gorlawn (os oedd eisoes yn orlawn) drwy ganiatáu i aelod(au) o'r teulu neu unigolyn arall/unigolion eraill symud i mewn i'r eiddo hwnnw, ar ôl ystyried unrhyw ofynion diwylliannol, o dan y categori hwn – gweler paragraffau 6.34-6.37.</p>
<p>Seiliau Meddygol: lle mae amodau tai yn gwneud cyflwr meddygol neu anabledd difrifol yn waeth.</p> <p>Ffafriaeth Resymol categori a167(2)(iv)</p>	<p>Rhoddir ffafriaeth resymol i ymgeisydd neu aelod o'i ddarpar aelwyd y mae angen tŷ hygyrch neu dŷ wedi'i addasu arno pan nodir, yn dilyn asesiad gan y Cyngor:</p> <p>(i) fod cyflwr meddygol cydnabyddedig yn cael ei waethgu o ganlyniad uniongyrchol i'r llety presennol, mai'r llety presennol yw achos uniongyrchol cyflwr meddygol neu fod y llety presennol yn ei gwneud hi'n anos defnyddio cyfleusterau o fewn ei gartref ar gyfer person anabl. Dim ond pan fydd y Cyngor wedi asesu y byddai ailgartrefu'r ymgeisydd yn helpu i wella lles, gan ystyried yr holl wybodaeth ategol berthnasol, y rhoddir ffafriaeth resymol iddo.</p>
<p>Seiliau Meddygol a Lles: amddiffyn plant.</p> <p>Ffafriaeth Resymol categori a167(2)(iv)</p>	<p>Rhoddir ffafriaeth resymol o dan yr amgylchiadau canlynol:</p> <p>(i) lle mae plant yn rhan o'r cais, y mae angen iddynt symud ac mae'r Cyngor wedi asesu bod eu llety yn cyfrannu at y risg i'r plentyn.</p> <p>Ni roddir ffafriaeth resymol oni fydd:</p> <p>(i) cynllun amddiffyn plant ar waith; ac</p> <p>(ii) adroddiad a luniwyd gan weithiwr cymdeithasol y plentyn sy'n ategu'r angen i symud, lle mae ailgartrefu'r ymgeisydd yn ffactor pwysig i sicrhau lles parhaus y plentyn. Bydd angen i'r adroddiad gael ei gydlofnodi gan reolwr tîm perthnasol yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol.</p>
<p>Seiliau Meddygol a Lles: cam-drin domestig, trais neu aflonyddwch.</p> <p>Ffafriaeth Resymol categori a167(2)(iv)</p>	<p>Rhoddir ffafriaeth resymol i ymgeisydd:</p> <p>(i) y mae angen iddo symud oherwydd cam-drin domestig, trais neu aflonyddwch, pan fydd yr asiantaethau perthnasol wedi asesu nad yw mewn perygl uniongyrchol.</p>

	<p>Caiff asesiad o angen ymgeisydd i symud ei wneud gan y Cyngor, a fydd yn cydgysylltu â'r sefydliadau perthnasol.</p>
<p>Seiliau Meddygol a Lles: ar sail caledi.</p> <p>Ffafiaeth Resymol categori a167(2)(iv)</p>	<p>Rhoddir ffafiaeth resymol i ymgeisydd:</p> <p>(i) y mae angen iddo symud i ardal benodol o fewn y fwrdeistref sirol, pe bai methiant i ddiwallu'r angen hwnnw yn achosi caledi (iddo'i hun neu i eraill). Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i ymgeisydd ar sail caledi. Yr ymgeisydd fydd yn gyfrifol am ddangos yn rhesymol i foddhad y Cyngor y byddai'r ymgeisydd yn wynebu caledi pa na roddid blaenoriaeth iddo.</p> <p>At ddibenion rhoi blaenoriaeth ar y sail hon, mae a wnelo caledi â'r angen i symud:</p> <p>(i) er mwyn cychwyn swydd neu barhau mewn swydd nad yw ar gael yn rhywle arall yn y fwrdeistref. Dim ond os nad ydynt yn byw o fewn pellter cymudo rhesymol i'w gweithle presennol neu eu darpar weithle yr ystyrir rhoi blaenoriaeth i ymgeiswyr, gan ystyried argaeledd trafndiaeth gyhoeddus/preifat a'u gallu i'w defnyddio. Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd roi cadarnhad o fanylion cyflogaeth gan ei gyflogwr i'r Cyngor;</p> <p>(ii) er mwyn bod yn agos at berthnasau er mwyn rhoi neu gael cymorth. Bydd angen i'r cymorth fod yn sylweddol ac yn barhaus ac mae'n rhaid iddo fod yn gysylltiedig ag anabledd, iechyd meddwl difrifol neu gyflwr meddygol neu broblem sy'n ymwneud â lles. At hynny, bydd angen profi pam na ellir darparu'r cymorth gan ddefnyddio naill ai trafndiaeth gyhoeddus neu drafnidiaeth breifat; neu</p> <p>(iii) er mwyn cael gafael ar ofal iechyd a/neu ofal gwasanaethau cymdeithasol. Rhoddir blaenoriaeth i'r ymgeisydd os gall ddangos bod angen iddo symud er mwyn cael gafael ar ofal iechyd a/neu ofal gwasanaethau cymdeithasol, ac na ellir yn rhesymol ddisgwyl iddo ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus na thrafnidiaeth breifat/nad oes trafndiaeth gyhoeddus na thrafnidiaeth breifat ar gael, gan gynnwys darpariaeth a wnaed gan y cyfleuster gofal iechyd neu'r gwasanaethau</p>

	cymdeithasol.
Seiliau Meddygol a Lles: symud ymlaen o leoliad gofal preswyl.  Ffafiaeth Resymol categori a167(2)(iv)	<p>Rhoddir ffafiaeth resymol i ymgeisydd:</p> <p>(i) y mae angen iddo symud ymlaen o leoliad gofal preswyl yn y fwrdeistref sirol ac y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn ystyried ei fod yn agored i niwed a bod angen darparu tŷ ar ei gyfer fel mater o flaenoriaeth. Er mwyn bod yn gymwys i gael ffafiaeth resymol mae'n rhaid iddo fod yn gyn-“Blentyn Perthnasol”, fel y'i diffinnir gan <a href="#">Ddeddf Plant (Gadael Gofal) 2000</a>, ac yn berson ifanc mewn perygl.</p> <p>Os gwneir cais am dŷ cyn i'r Cyngor benderfynu bod yr unigolyn yn barod i fyw'n annibynnol, gan ystyried gwybodaeth gan weithiwr cymorth yr ymgeisydd a/neu asiantaethau eraill, rhoddir y cais ym Mand 3, oni fydd yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf eraill ar gyfer ffafiaeth ychwanegol neu resymol. Pan fydd penderfyniad wedi'i wneud bod yr unigolyn yn barod i symud ymlaen, bydd y Cyngor yn rhoi'r ymgeisydd ym Mand 2.</p>
<b>Band 3: Mae'r Ymgeisydd am Symud – Dim Ffafiaeth Resymol nac Ychwanegol, neu Ffafiaeth Resymol neu Ychwanegol a Dim Cysylltiad Lleol</b>	<b>Enghreifftiau o Amgylchiadau Cymwys / Crynodeb o'r Meini Prawf</b>
Pob categori arall o ymgeisydd nas cwmpesir gan Fand 1 na Band 2.	<p>Rhoddir pob categori arall o ymgeisydd nas cwmpesir gan Fand 1 na Band 2 ym Mand 3. Bydd hyn yn cynnwys:</p> <p>(i) ymgeiswyr nad ydynt yn gymwys i gael Ffafiaeth Resymol na Ffafiaeth Ychwanegol ond a hoffai symud i lety amgen, pa un a oes ganddynt gysylltiad lleol ai peidio.</p> <p>(ii) ymgeiswyr sy'n gymwys i gael Ffafiaeth Resymol neu Ffafiaeth Ychwanegol ond y mae'r Cyngor yn ystyried nad oes ganddynt gysylltiad lleol (gweler paragraffau 2.35-2.36); a</p> <p>(iii) pob ymgeisydd arall fel y nodir gan y polisi hwn.</p>

### Atodiad 3: Meini Prawf Diystyru

- 2.1 Mae'r atodiad hwn i'r polisi dyrannu cyffredin yn nodi'r amgylchiadau lle y gall unrhyw un o'r landlordiaid sy'n barti yn y polisi hwn ddiystyru ymgeisydd sydd nesaf ar y rhestr i gael cynnig llety.
- 2.2 Mae pob landlord yn dadlau:
- (i) na ddylid defnyddio gwaharddiadau cyffredinol; ac
  - (ii) mai dim ond yn unol â'r meini prawf y cytunwyd arnynt ac a nodir yn y polisi hwn y byddant yn diystyru ymgeisydd a fyddai nesaf ar y rhestr i gael cynnig llety.
- 2.3 Er ei bod yn bosibl y bydd landlordiaid am gadw:
- (i) rheolau eithrio nad ydynt yn rhan o'r polisi dyrannu cyffredin, e.e. rheolau sy'n ymwneud â maint llety sydd i'w gynnig a
  - (ii) rheolau eithrio mewn perthynas ag anifeiliaid anwes domestig.
- 2.3 Mae pob parti wedi cytuno, hyd y gellir, i gydymffurfio â set gyffredin o reolau a chwtogi hyd yr eithaf ar nifer yr eithriadau ond mae pob un yn cydnabod bod angen i bob sefydliad reoli eu hanheddau yn briodol.
- 2.4 Er mwyn helpu i sicrhau y caiff y polisi hwn ei weithredu'n effeithlon, bydd y Panel Asesu Tai yn cyfarfod bob mis, neu'n amlach os bydd y partïon yn cytuno, er mwyn adolygu achosion sy'n disgwyl cael cynnig tŷ, lle y gall eu hamgylchiadau arwain at yr ymgeisydd yn cael ei ddiystyru neu lle y ceir amgylchiadau eithriadol nad ydynt yn cyd-fynd â'r enghreifftiau ym mharagraff 2.5 ond a allai arwain at y posibilrwydd y caiff ymgeisydd ei ddiystyru o hyd. Felly, gall y Panel ragweld achosion a fydd yn achosi problemau a chytuno ar gynllun gweithredu y gall cynnig fynd rhagddo neu beidio â mynd rhagddo oddi tano.
- 2.5 Isod ceir rhestr o enghreifftiau y gall landlordiaid eu defnyddio i ddiystyru ymgeisydd sy'n disgwyl cael cynnig llety. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:
- (i) Gwybodaeth anghyflawn;
  - (ii) Ddim yn gymwys i gael y math o eiddo dan sylw;
  - (iii) Heb ymateb i gynnig o fewn y terfynau amser rhagddiffiniedig;
  - (iv) Gosodiad sensitif;
  - (v) Cyfyngiad a osodwyd ar ailgartrefu; a
  - (vi) Ddim yn ymlynu i'r cynllun ad-dalu dyled.
- 2.6 Mae amgylchiadau eraill lle y gall fod angen i landlord ddiystyru ymgeisydd sy'n disgwyl cael cynnig llety yn cynnwys y canlynol:

- (i) lle y gall yr ymgeisydd fod yn agored i niwed ac nid ystyrir ei fod yn barod i gynnal tenantiaeth; neu
  - (ii) os ystyrir bod risg i'r ymgeisydd neu eraill ac y gall fod angen cynllunio gosodiad sensitif.
- 2.7 Ni ellir disgrifio pob sefyllfa lle y gellir diystyru ymgeisydd. Bydd angen i achosion unigol nas cwmpesir gan y meini prawf gael eu trafod gan y Panel Asesu Tai. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau na chaiff ymgeiswyr sy'n agored i niwed eu diystyru oherwydd diffyg gwaith cynllunio cyn gwneud cynnig sy'n golygu nad yw cynnig yn cael ei wneud gan nad oes digon o wybodaeth neu becyn cymorth priodol ar gael.
- 2.8 Lle y ceir ymgeiswyr sy'n agored iawn i niwed neu yr ystyrir eu bod yn peri risg iddynt eu hunain neu eraill dylid cyflwyno'r achos i gyfarfod y Panel Asesu Tai er mwyn iddo benderfynu a ydynt yn barod i gynnal tenantiaeth a pha becyn cymorth sydd ei angen fel y gellir cynnig llety iddynt.
- 2.9 Gall y math o wybodaeth i'w hystyried gan y Panel Asesu Tai gynnwys y canlynol:
- (i) manylion unrhyw salwch hirdymor, problem iechyd, neu anabledd sy'n gofyn am dŷ, gofal neu gymorth penodol neu arbenigol;
  - (ii) manylion unrhyw anghenion gofal a chymorth eraill, er enghraifft am fod yr ymgeisydd yn agored i niwed oherwydd anawsterau dysgu;
  - (iii) manylion pecynnau gofal arfaethedig, presennol a blaenorol a ddarperir gan gyrff statudol neu gyrff eraill lle y bônt yn hysbys;
  - (iv) gwybodaeth berthnasol a rhesymol am hanes blaenorol ymddygiad gwrthgymdeithasol a allai effeithio ar ddiogelwch y gymuned; neu
  - (v) y math o lety y mae'r ymgeisydd yn symud ohono ac unrhyw fanylion ychwanegol sydd ar gael am lety blaenorol.
- 2.10 Caiff y rhesymau dros ddiystyru ymgeiswyr eu cofnodi ar system TG y gofrestr tai gyffredin a'u monitro er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r meini prawf diystyru.
- 2.11 Oni fydd paragraff 2.12 yn gymwys, bydd yn ofynnol i'r landlord hysbysu ymgeisydd dros y ffôn, drwy e-bost neu drwy lythyr am y rhesymau pam mae wedi'i ddiystyru. Bydd hyn yn galluogi'r ymgeisydd i fynd i'r afael â'r rhesymau pam mae wedi'i ddiystyru ac atal hyn rhag digwydd eto yn y dyfodol, e.e. methiant i gydymffurfio â chynllun ad-



daludyled. Bydd y landlord yn cyfeirio'r ymgeisydd at dîm y gofrestr tai gyffredin er mwyn iddo gael cyngor a chymorth i'w atal rhag cael ei ddiystyru.

- 2.12 Ni fydd yn ofynnol i'r landlord hysbysu'r ymgeisydd pan gaiff ei ddiystyru am nad yw'n bodloni'r meini prawf gofynnol sy'n ymwneud ag eiddo, h.y. ar gyfer gosodiadau sensitif, mynediad nad yw'n cynnwys anifeiliaid anwes ac ati.
- 2.13 Dylai unrhyw anghydfod sy'n deillio o benderfyniad landlord i beidio â chynnig llety i ymgeisydd pan fydd unrhyw bartner yn credu bod hyn yn groes i'r polisi y cytunwyd arno gael ei ddatrys yn unol â'r weithdrefn ganlynol:
- (i) O fewn dau ddiwrnod i godi pryder, bydd swyddog enwebedig y Cyngor yn cyfarfod swyddog a enwebwyd gan y landlord pan honnir nad yw llety wedi'i gynnig am resymau nad ymdrinnir â hwy yn y polisi a bydd pob parti yn gwneud pob ymdrech resymol i ddatrys yr anghydfod yn gyfeillgar, mewn ewyllys da.
  - (ii) Os na ellir datrys yr anghydfod drwy (i) uchod fe'i cyfeirir at uwch swyddog y Cyngor sy'n bennaf cyfrifol am y gofrestr tai gyffredin ac, yn dibynnu ar y sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r achos, Brif Swyddog Tai'r Cyngor neu Brif Weithredwr y gymdeithas dai, a fydd yn gwneud pob ymdrech i drafod y mater o fewn dau ddiwrnod i gyfeirio'r anghydfod ato ac a fydd yn gwneud pob ymdrech resymol i ddatrys yr anghydfod yn gyfeillgar ac mewn ewyllys da.

## Atodiad 4: Meini Prawf Maint Cymdeithas - Nifer yr Ystafelloedd Gwely

Mae'r rheolau yn caniatáu un ystafell wely ar gyfer:

- pob cwpl sy'n oedolion (priod neu ddibriod));
- unrhyw oedolyn arall 16 oed neu drosodd;
- unrhyw 2 blentyn o'r un rhyw o dan 16 oed;
- unrhyw ddau blentyn o dan 10 oed;
- unrhyw blentyn arall (ac eithrio plentyn maeth neu blentyn y mae ei brif gartref rywle arall);
- plant na allant rannu ystafell wely oherwydd anabledd neu gyflwr meddygol; a
- gofalwr ( neu dîm o ofalwyr) sy'n darparu gofal dros nos.

Caniateir un ystafell wely sbâr ar gyfer:

- gofalwr maeth cymeradwy sydd rhwng lleoliadau, ond dim ond hyd at 52 wythnos o ddiwedd y lleoliad diwethaf;
- gofalwr maeth newydd ei gymeradwyo hyd at 52 wythnos o'r dyddiad cymeradwyo os na leolir unrhyw blentyn gydag ef yn ystod y cyfnod hwnnw.

<b>Categori</b>	<b>Meini Prawf Maint Cymdeithasol Maint Ystafelloedd Gwely</b>
Oedolyn 16 oed neu drosodd	1 ystafell wely
Oedolyn 16 oed neu drosodd ac un plentyn	2 ystafell wely
Oedolyn 16 oed neu drosodd a dau blentyn o dan 10 oed	2 ystafell wely
Oedolyn 16 oed neu drosodd a dau blentyn o'r un rhyw o dan 16 oed	2 ystafell wely
Oedolyn 16 oed neu drosodd a thri plentyn	3 ystafell wely
Oedolyn 16 oed neu drosodd a phedwar plentyn (pedwar plentyn o dan 10 oed)	3 ystafell wely
Oedolyn 16 oed neu drosodd a phedwar plentyn (dau blentyn o'r un rhyw o dan 16 oed a dau blentyn arall o'r un rhyw o dan 16 oed)	3 ystafell wely
Oedolyn 16 neu drosodd a phedwar plentyn (dau blentyn o dan 10 oed a dau blentyn o'r un rhyw o dan 16 oed)	3 ystafell wely
Oedolyn 16 oed neu drosodd a phedwar plentyn (mewn cyfuniad gwahanol i'r rhai a restrwyd uchod)	4 ystafell wely
Cwpl sy'n oedolion (priod neu ddibriod);	1 ystafell wely
Cwpl sy'n oedolion ac un plentyn (priod neu ddibriod)	2 ystafell wely

Cwpl sy'n oedolion (priod neu ddibriod) a dau blentyn o dan 10 oed	2 ystafell wely
Cwpl sy'n oedolion (priod neu ddibriod) a dau blentyn o'r un rhyw o dan 16 oed	2 ystafell wely
Cwpl sy'n oedolion (priod neu ddibriod) a thri phlentyn	3 ystafell wely
Cwpl sy'n oedolion (priod neu ddibriod) a phedwar plentyn (pedwar plentyn o dan 10 oed)	3 ystafell wely
Cwpl sy'n oedolion (priod neu ddibriod) a phedwar plentyn (dau blentyn o'r un rhyw o dan 16 oed a dau blentyn arall o'r un rhyw o dan 16 oed)	3 ystafell wely
Cwpl sy'n oedolion (priod neu ddibriod) a phedwar plentyn (dau blentyn o dan 10 oed a dau blentyn o'r un rhyw o dan 16 oed)	3 ystafell wely
Cwpl sy'n oedolion (priod neu ddibriod) a phedwar plentyn (mewn cyfuniad gwahanol i'r rhai a restrwyd uchod)	4 ystafell wely

### Atodiad 5: Meini Prawf Maint yr Aelwyd

<b>Categori</b>	<b>Aelwyd</b>	<b>Cadwyn</b>	<b>CBS Caerffili</b>	<b>Charter</b>	<b>Derwen Cymru</b>	<b>Linc Cymru</b>	<b>Unedig Cymru</b>	<b>Wales &amp; West</b>
Oedolyn 16 oed neu drosodd	Fflat ag un ystafell wely/fflat un ystafell, fflat â dwy ystafell wely – 55 oed a throsodd yn unig	Fflat ag un ystafell wely	Fflat ag un ystafell wely/fflat un ystafell, fflat â dwy ystafell wely	Fflat ag un ystafell wely/fflat un ystafell		Fflat ag un ystafell wely/fflat un ystafell	Fflat ag un ystafell wely/fflat un ystafell	Fflat ag un ystafell wely/stiwdio
Oedolyn 16 oed neu drosodd ac un plentyn	Dd/G	Fflat â dwy ystafell wely	Tŷ/fflat/maisonette â dwy/tair ystafell wely	Fflat neu dŷ â dwy ystafell wely		Fflat/tŷ â dwy ystafell wely	Fflat/tŷ â dwy ystafell wely	Dwy ystafell wely
Oedolyn 16 oed neu drosodd a dau blentyn o dan 10 oed	Dd/G	Fflat â dwy ystafell wely	Tŷ/fflat/maisonette â dwy/tair/pe dair ystafell wely	Tŷ â dwy/tair ystafell wely		Fflat/tŷ â dwy ystafell wely	Fflat/tŷ â dwy ystafell wely neu Dŷ â thair ystafell wely	Dwy ystafell wely
Oedolyn 16 oed neu drosodd a dau blentyn o'r un rhyw o dan 16 oed	Dd/G	Fflat â dwy ystafell wely	Tŷ/fflat/maisonette â dwy/tair/pe dair ystafell wely	Fflat neu dŷ â dwy/tair ystafell wely		Fflat/tŷ â dwy ystafell wely	Fflat/tŷ â dwy ystafell wely neu Dŷ â thair	Dwy ystafell wely

			wely yn dibynnu ar osodiadau lleol				ystafell wely	
Oedolyn 16 oed neu drosodd a thri phlentyn	Dd/G	Dd/G	Tŷ/fflat/mai sonette â thair/pedair ystafell wely	Tŷ â thair/pedair ystafell wely		Tŷ â thair/pedair ystafell wely	Tŷ â thair/pedair ystafell wely	Tair ystafell wely
Oedolyn 16 oed neu drosodd a phedwar plentyn (pedwar plentyn o dan 10 oed)	Dd/G	Dd/G	Tŷ/fflat â thair/pedair ystafell wely	Tŷ â thair/pedair ystafell wely		Tŷ â thair/pedair ystafell wely	Tŷ â thair/pedair/pum ystafell wely	Tair ystafell wely
Oedolyn 16 oed neu drosodd a phedwar plentyn (dau blentyn o'r un rhyw o dan 16 oed a dau blentyn arall o'r un rhyw o dan 16 oed)	Dd/G	Dd/G	Tŷ/fflat â thair/pedair ystafell wely	Tŷ â thair/pedair ystafell wely		Tŷ â thair/pedair ystafell wely	Tŷ â thair/pedair/pum ystafell wely	Tair ystafell wely
Oedolyn 16 oed neu drosodd a phedwar plentyn (dau blentyn o dan 10 oed a dau blentyn o'r un rhyw o dan 16 oed)	Dd/G	Dd/G	Tŷ/fflat/mai sonette â thair/pedair ystafell wely	Tŷ a thair/pedair ystafell wely		Tŷ a thair/pedair ystafell wely	Tŷ â thair/pedair/pum ystafell wely	Tair ystafell wely
Oedolyn 16 oed neu drosodd a phedwar plentyn (mewn cyfuniad	Dd/G	Dd/G	Tŷ/fflat/mai sonette â thair/pedair	Tŷ â phedair ystafell		Tŷ â phedair ystafell	Tŷ â thair/pedair/pum	Pedair ystafell wely

gwahanol i'r rhai a restrwyd uchod)			ystafell wely	wely		wely	ystafell wely	
Cwpl sy'n oedolion (priod neu ddibriod);	Dd/G	Fflat ag un ystafell wely	Fflat/tŷ/mai sonette ag un/dwy ystafell wely	Fflat ag un/dwy ystafell wely		Fflat/tŷ ag un ystafell wely	Fflat ag un gwely (tŷ neu fflat â dwy ystafell wely os yw'r ymgeisydd yn symud o dŷ â thair/pedair/pum ystafell wely)	1 ystafell wely
Cwpl sy'n oedolion ac un plentyn (priod neu ddibriod)	Dd/G	Fflat â dwy ystafell wely	Tŷ/fflat/mai sonette â dwy/tair ystafell wely	Fflat neu dŷ â dwy ystafell wely		Fflat neu dŷ â dwy ystafell wely	Fflat neu dŷ â dwy ystafell wely	Dwy ystafell wely
Cwpl sy'n oedolion (priod neu ddibriod) a dau blentyn o dan 10 oed	Dd/G	Fflat â dwy ystafell wely	Tŷ/fflat/mai sonette â dwy/tair ystafell wely	Tŷ â dwy/tair ystafell wely		Tŷ â dwy ystafell wely	Fflat/tŷ â dwy/tair ystafell wely	Dwy ystafell wely
Cwpl sy'n oedolion (priod neu ddibriod) a dau blentyn o'r un rhyw o dan 16 oed	Dd/G	Fflat â dwy ystafell wely	Tŷ/fflat/mai sonette â dwy/tair/pe dair ystafell wely	Tŷ â dwy/tair ystafell wely		Tŷ â dwy ystafell wely	Fflat/tŷ â dwy/tair ystafell wely	Dwy ystafell wely

			wely					
Cwpl sy'n oedolion (priod neu ddibriad) a thri phlentyn	Dd/G	Dd/G	Tŷ/fflat â thair/pedair ystafell wely	Tŷ â thair/pedair ystafell wely		Tŷ â thair ystafell wely	Tŷ â thair/pedair ystafell wely	Tair ystafell wely
Cwpl sy'n oedolion (priod neu ddibriad) a phedwar plentyn (pedwar plentyn o dan 10 oed)	Dd/G	Dd/G	Tŷ/fflat â thair/pedair ystafell wely	Tŷ â thair/pedair ystafell wely		Tŷ â thair/pedair ystafell wely	Tŷ â thair/pedair/pum ystafell wely	Tair ystafell wely
Cwpl sy'n oedolion (priod neu ddibriad) a phedwar plentyn (dau blentyn o'r un rhyw o dan 16 oed a dau blentyn arall o'r un rhyw o dan 16 oed)	Dd/G	Dd/G	Tŷ/fflat â thair/pedair ystafell wely	Tŷ â thair/pedair ystafell wely		Tŷ â thair/pedair ystafell wely	Tŷ â thair/pedair/pum ystafell wely	Tair ystafell wely
Cwpl sy'n oedolion (priod neu ddibriad) a phedwar plentyn (dau blentyn o dan 10 oed a dau blentyn o'r un rhyw o dan 16 oed)	Dd/G	Dd/G	Tŷ/fflat â thair/pedair ystafell wely	Tŷ â thair/pedair ystafell wely		Tŷ â thair/pedair ystafell wely	Tŷ â thair/pedair/pum ystafell wely	Tair ystafell wely
Cwpl sy'n oedolion (priod neu ddibriad) a phedwar plentyn (mewn cyfuniad gwahanol i'r rhai a restrwyd uchod)	Dd/G	Dd/G	Tŷ â phedair ystafell wely	Tŷ â phedair ystafell wely		Tŷ â phedair ystafell wely	Tŷ â phedair/pum ystafell wely	Pedair ystafell wely

## Atodiad 6: Meini Prawf Cysylltiedig ag Isafswm Oedran ar gyfer Tai Ymddeol

	Tai i Bobl Hŷn	Tai Gwarchod
<b>Aelwyd</b>	55+	Dd/G
<b>Cadwyn</b>	Dd/G	Dd/G
<b>CBS Caerffili</b>	60+	60+
<b>Charter</b>	Dd/G	Dd/G
<b>Derwen Cymru</b>	55+ (50+ ag anabledd)	Dd/G
<b>Linc Cymru</b>	55+	55+
<b>Cymdeithas Tai Unedig Cymru</b>	55+	55+
<b>Wales &amp; West</b>	60+ (55+ â chyflwr meddygol)	60+ (55+ â chyflwr meddygol)



## Atodiad 7: Categoriâu o Anabledd

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf isod i baru pobl anabl â thai addas sy'n cyd-fynd yn agos â'u hanghenion:

Dosbarthiad Y Person	Meini Prawf
<b>A1</b>	Defnyddiwr cadair olwyn annibynnol. Bydd angen llety ar y llawr gwaelod arno neu lifft fertigol i gyrraedd lloriau eraill. Rhaid i fynedfa'r eiddo fod yn wastad neu ar ffurf ramp â graddiant o hyd at 1:12. Bydd angen i'r llety fod yn gwbl hygyrch i rywun mewn cadair olwyn h.y. drysau sydd o leiaf 780mm o led.
<b>A2</b>	Defnyddiwr cadair olwyn dibynnol. Bydd angen llety ar y llawr gwaelod arno neu lifft fertigol i gyrraedd lloriau eraill. Rhaid i fynedfa'r eiddo fod yn wastad neu ar ffurf ramp â graddiant o hyd at 1:12. Yn fewnol efallai na fydd angen i'r eiddo fod yn gwbl hygyrch i rywun mewn cadair olwyn ond bydd angen sicrhau bod gan ystafelloedd hanfodol ddrysau sydd o leiaf 780mm o led.
<b>B1</b>	Unigolyn a all gerdded i ryw raddau ac na all ymdopi â grisïau, neu sy'n dibynnu ar gadair olwyn pan fydd y tu allan. Bydd angen i'r eiddo fod ar y llawr gwaelod neu bydd angen iddo fod â lifft risïau neu lifft fertigol sy'n rhoi mynediad i loriau eraill. Bydd angen i fynedfa'r eiddo fod yn wastad neu ar ffurf ramp â graddiant o hyd at 1:12.
<b>B 2</b>	Unigolyn a all gerdded i ryw raddau ac a all ymdopi â nifer gyfyngedig o risïau. Gall yr eiddo fod ar y llawr gwaelod neu gall fod ganddo lifft risïau neu lifft fertigol sy'n rhoi mynediad i loriau eraill. Nid oes angen i fynedfa'r eiddo fod yn wastad ond dylai fod ganddi nifer gyfyngedig o risïau a chanllawïau.
<b>C</b>	Unigolyn a all gerdded ac a all ymdopi â grisïau i ryw raddau.

## Atodiad 8: Dosbarthiadau Tai Hygyrch

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf isod i nodi tai hygyrch a pharu ymgeiswyr anabl â llety addas yn seiliedig ar eu gofynion penodol:

<b>Dosbarthiad yr Eiddo</b>	<b>Meini Prawf</b>
<b>A1</b>	Eiddo sydd wedi'i addasu'n sylweddol, neu eiddo pwrpasol, y mae pob rhan ohono'n hygyrch i rywun mewn cadair olwyn. Cyrhaeddir lefelau eraill gan ddefnyddio lifft risiau neu lifft fertigol a byddai angen i fynedfa'r eiddo fod yn wastad neu ar ffurf ramp â graddiant o hyd at 1:12. Dylai pob drws fod ag agoriad clir o 780mm o leiaf.
<b>A2</b>	Eiddo lle y gall rhywun mewn cadair olwyn gyrraedd y prif gyfleusterau, h.y. cyfleusterau cael bath, byw a chysgu. Bydd angen i'r eiddo fod â lifft risiau neu lifft fertigol i gyrraedd lefelau eraill. Bydd angen i fynedfa'r eiddo fod yn wastad neu ar ffurf ramp â graddiant o hyd at 1:12.
<b>B1</b>	Eiddo ar y llawr gwaelod, eiddo ar y llawr cyntaf y gellir ei gyrraedd mewn lifft neu eiddo deulawr y gellir cyrraedd y ei lawr cyntaf gan ddefnyddio lifft risiau neu lifft fertigol. Dylai mynedfa'r eiddo fod yn wastad neu ar ffurf ramp â graddiant o hyd at 1:12.
<b>B2</b>	Eiddo ar y llawr gwaelod, eiddo ar y llawr cyntaf a gyrhaeddir mewn lifft neu eiddo deulawr y gellir cyrraedd y ei lawr cyntaf gan ddefnyddio lifft risiau. Ni ddylai fod gan fynedfa'r eiddo fwy na thri gris.
<b>C1</b>	Eiddo ar y llawr cyntaf fel bod y cyfleusterau ar yr un lefel. Nid oes angen i'r eiddo fod â lifft i gyrraedd y llawr cyntaf. Ni ddylai fod gan fynedfa'r eiddo fwy na chwe gris.
<b>C2</b>	Eiddo deulawr â chyfleusterau toiled ar y ddwy lefel. Nid oes angen i'r eiddo fod â lifft i gyrraedd y llawr cyntaf. Ni ddylai fod gan fynedfa'r eiddo fwy na chwe gris.
<b>C3</b>	Eiddo ar y llawr gwaelod nad oes ganddo fwy na chwe gris.
<b>Ch</b>	Eiddo nad yw'n addas i'w addasu.

## Atodiad 9: Meini Prawf ar gyfer Rhoi'r Ymgeiswyr Mwyaf Addas ar y Rhestr Fer

Os daw eiddo A1 yn wag bydd y broses fel a ganlyn:

Cam	Cam Gweithredu
1.	Rhoi ymgeiswyr categori A1 ym mand 1 ar y rhestr fer. Os na ddeuir o hyd i unrhyw ymgeiswyr addas ewch i'r cam nesaf.
2.	Rhoi ymgeiswyr categori A1 ym mand 2 ar y rhestr fer. Os na ddeuir o hyd i unrhyw ymgeiswyr addas ewch i'r cam nesaf.
3.	Rhoi ymgeiswyr categori A2 ym mand 1 ar y rhestr fer. Os na ddeuir o hyd i unrhyw ymgeiswyr addas ewch i'r cam nesaf.
4.	Rhoi ymgeiswyr categori A2 ym mand 2 ar y rhestr fer. Os na ddeuir o hyd i unrhyw ymgeiswyr addas ewch i'r cam nesaf.
5.	Ystyried ymgeiswyr categori A1 ym mand 3. Os na ddeuir o hyd i unrhyw ymgeiswyr addas ewch i'r cam nesaf.
6.	Ystyried ymgeiswyr categori A2 ym mand 3. Os na ddeuir o hyd i unrhyw ymgeiswyr addas rhwch yr eiddo i ymgeisydd o'r brif restr.

Os daw eiddo A2 yn wag bydd y broses fel a ganlyn:

Cam	Cam Gweithredu
1.	Rhoi ymgeiswyr categori A2 ym mand 1 ar y rhestr fer. Os na ddeuir o hyd i unrhyw ymgeiswyr addas ewch i'r cam nesaf.
2.	Rhoi ymgeiswyr categori A2 ym mand 2 ar y rhestr fer. Os na ddeuir o hyd i unrhyw ymgeiswyr addas ewch i'r cam nesaf.
3.	Ystyried ymgeiswyr categori A2 ym mand 3. Os na ddeuir o hyd i unrhyw ymgeiswyr addas rhwch yr eiddo i ymgeisydd o'r brif restr.

Os daw eiddo B1 yn wag bydd y broses fel a ganlyn:

Cam	Cam Gweithredu
1.	Rhoi ymgeiswyr categori B1 ym mand 1 ar y rhestr fer. Os na ddeuir o hyd i unrhyw ymgeiswyr addas ewch i'r cam nesaf.
2.	Rhoi ymgeiswyr categori B1 ym mand 2 ar y rhestr fer. Os na ddeuir o hyd i unrhyw ymgeiswyr addas ewch i'r cam nesaf.
3.	Ystyried ymgeiswyr categori B1 ym mand 3. Os na ddeuir o hyd i unrhyw ymgeiswyr addas rhwch yr eiddo i ymgeisydd o'r brif restr.

Os daw eiddo yn wag ac mae'n cynnwys addasiadau (mawr) y gellir eu defnyddio, byddai'r broses fel a ganlyn:

Cam	Cam Gweithredu
1.	Rhoi ymgeiswyr categori B1 ym mand 1 ar y rhestr fer. Os na ddeuir o hyd i unrhyw ymgeiswyr addas ewch i'r cam nesaf.
2.	Rhoi ymgeiswyr categori B1 ym mand 2 ar y rhestr fer. Os na ddeuir o hyd i unrhyw ymgeiswyr addas ewch i'r cam nesaf.
3.	Ystyried ymgeiswyr categori B1 ym mand 3. Os na ddeuir o hyd i unrhyw

	ymgeiswyr addas rhowch yr eiddo i ymgeisydd o'r brif restr.
--	---

## Atodiad 10: Manylion Cyswilt

Bydd copiâu o'r polisi hwn ar gael i'r cyhoedd eu gweld yn y lleoliadau canlynol:

Sefydliad	Manylion Cyswilt			
	Cyfeiriad	Ffôn	E-bost	Gwefan
Cymdeithas Tai Aelwyd	56-58 Heol Richmond Caerdydd CF24 3ET	02920 481203	<a href="mailto:enquiries@aelwyd.co.uk">enquiries@aelwyd.co.uk</a>	<a href="http://www.aelwyd.co.uk">www.aelwyd.co.uk</a>
Cadwyn	197 Heol Casnewydd Caerdydd CF24 1AJ	029 2049 8898	<a href="mailto:info@cadwyn.co.uk">info@cadwyn.co.uk</a>	<a href="http://www.cadwyn.co.uk">www.cadwyn.co.uk</a>
CBS Caerffili	Tŷ Penallta Parc Tredomen Ystrad Mynach Hengoed CF82 7PG	01443 815588	<a href="mailto:housing@caerphilly.gov.uk">housing@caerphilly.gov.uk</a>	<a href="http://www.caerffili.gov.uk">www.caerffili.gov.uk</a>
	Yr Adran Cyngor ar Dai Gilfach Bargod CF81 8ND	01443 873552		
Charter Housing	Tŷ'r Gyfnewidfa Hen Swyddfa'r Post Stryd Fawr Casnewydd NP20 1AA	01633 212375	<a href="mailto:lettings@charterhousing.co.uk">lettings@charterhousing.co.uk</a>	<a href="http://www.charterhousing.co.uk">www.charterhousing.co.uk</a>
Derwen Cymru	6 <sup>ed</sup> Llawr Clarence House Clarence Place Casnewydd NP19 7AA	01633 261990	<a href="mailto:info@derwencymru.co.uk">info@derwencymru.co.uk</a>	<a href="http://www.derwencymru.co.uk/">http://www.derwencymru.co.uk/</a>
Cymdeithas Tai Linc-Cymru	387 Heol Casnewydd Caerdydd CF24 1GG	0800 072 0966 neu 02920 473767	<a href="mailto:contactcentre@linc-cymru.co.uk">contactcentre@linc-cymru.co.uk</a>	<a href="http://www.linc-cymru.co.uk">www.linc-cymru.co.uk</a>
United Welsh Group	Y Borth 13 Beddau Way Caerffili CF83 2AX	0800 294 0195 029 2085 8100	<a href="mailto:tellmemore@unitedwelsh.com">tellmemore@unitedwelsh.com</a>	<a href="http://www.unitedwelsh.com">www.unitedwelsh.com</a>
Cymdeithas Tai Wales & West	3 Alexandra Gate	0800 052 2526	<a href="mailto:contactus@wwha.co.uk">contactus@wwha.co.uk</a>	<a href="http://www.wwha.co.uk">www.wwha.co.uk</a>

	Ffordd Pengam Tremorfa Caerdydd CF24 2UD	029 2041 5300 Minicom: 0800 052 2505		
--	---	---	--	--